

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Offer Diogelu Personol

Fersiwn 1.0 Awst 2018

Am y polisi hwn

Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio'r drefn mewn perthynas â defnyddio offer diogelu personol, er mwyn sicrhau bod gan bob gweithiwr yr offer diogelu personol (ODP) cywir yn y gwaith a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir.

Mae'r weithdrefn yn disgrifio cyfrifoldebau'r rheolwyr a'r gweithwyr mewn perthynas â staff sydd angen defnyddio offer diogelu personol.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Medi 2016	
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Awst 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Medi 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Iechyd a Diogelwch

Manylion cyswllt: 01248 752820

Health&Safety@ynysmon.gov.uk

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Diffiniad
- 3.0 Dyletswyddau o dan y Rheoliadau
- 4.0 Mesurau Atal yn y Gweithle
- 5.0 Cyfrifoldebau

1.0 Cyflwyniad

Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio'r drefn mewn perthynas â defnyddio offer diogelu personol, er mwyn sicrhau bod gan bob gweithiwr yr offer diogelu personol (ODP) cywir yn y gwaith a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir.

Mae'r weithdrefn yn disgrifio cyfrifoldebau'r rheolwyr a'r gweithwyr mewn perthynas â staff sydd angen defnyddio offer diogelu personol.

2.0 Diffiniad

Mae offer diogelu personol (ODP) yn golygu'r holl offer y bwriadwyd iddo gael ei wisgo neu ei ddal gan berson yn y gwaith i'w ddiogelu rhag un neu fwy o risgiau, ac unrhyw ychwanegiad neu ategolyn a luniwyd i sicrhau'r amcan hon. Nid yw dillad gwaith cyffredin neu ddillad a ddarperir nad ydynt wedi'u dylunio'n benodol i ddiogelu iechyd a diogelwch y gwisgwr yn dod o fewn y diffiniad.

3.0 Dyletswyddau o dan y Rheoliadau

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974: Mae gan gyflogwyr ddyletswydd o ofal am iechyd, diogelwch a lles pob gweithiwr tra bônt yn y gwaith ac i bobl eraill all gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau.

Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (fel y'i diwygiwyd): Rhaid i gyflogwyr ddweud wrth eu holl weithwyr, yn cynnwys gweithwyr ifanc, am y risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch, fel a nodwyd mewn asesiadau risg, a'r mesurau a roddwyd yn eu lle i'w rheoli.

Rheoliadau Offer Diogelu Personol yn y Gwaith 1992 (fel y'i diwygiwyd): Rhaid i bob cyflogwr ddarparu ODP addas i bob un o'u gweithwyr all ddod i gysylltiad ag unrhyw risg tra yn y gwaith, ar wahân i lle bo risg o'r fath wedi'i rheoli'n ddigonol trwy dulliau eraill sydd yr un mor effeithiol neu yn fwy effeithiol.

4.0 Mesurau Atal yn y Gweithle

Nod Cyngor Sir Ynys Môn yw darparu amgylchedd gweithio iach a diogel ac arferion diogel i bawb bob amser. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau'r risg i weithwyr a phersonau eraill a bydd y Cyngor, fel dewis olaf, yn darparu offer diogelu personol (ODP) iddynt tra bônt yn y gweithio ar fusnes y Cyngor.

Darparu Offer Diogelu Personol

Rhaid i bob rheolwr sicrhau bod pob gweithiwr yn derbyn offer diogelu personol addas i'w diogelu rhag unrhyw risgiau y gallant ddod i gysylltiad â hwy tra'n gwneud eu dyletswyddau yn y gwaith ar ran y Cyngor. Rhaid ystyried y canlynol:

- Anghenion ergonomaid y person sy'n gwisgo'r ODP.
- Sicrhau bod yr ODP yn briodol ar gyfer y risg.
- Sicrhau ei fod yn ffitio'r defnyddiwr yn iawn.
- Sicrhau bod yr ODP yn effeithiol, yn addas ac yn ymarferol i'r defnyddiwr pan fydd yn gwneud ei waith.
- **Cydymffurfio gydag unrhyw ddarpariaeth arall sy'n gweithredu unrhyw Orchymyn ODP CE (e.e. gydag ardystiad 'CE' wedi'i farcio fel un sy'n bodloni gofynion diogelwch sylfaenol).**

Addasrwydd Offer Diogelu Personol

Os bydd mwy nag un eitem o ODP yn cael ei gwisgo, rhaid i'r eitemau gwahanol hyn o'r ODP fod yn rhai fydd yn cyfateb i'w gilydd. Er enghraifft, ni fydd mathau arbennig o anadlyddion yn ffitio'n iawn nac yn rhoi diogelwch digonol os bydd helmed diogelwch yn cael ei gwisgo.

Mewn achosion o'r fath, pan yn dewis ODP, rhaid sicrhau bod y ddwy eitem pan gânt eu defnyddio gyda'i gilydd, yn rheoli'n ddigonol y risgiau y bwriadwyd hwy ar eu cyfer.

Asesu Offer Diogelu Personol

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gorfodi cyflogwyr i ddweud wrth yr holl weithwyr am risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch fel sydd wedi'u nodi trwy asesiadau risg, a'r mesurau a roddwyd yn eu lle i'w rheoli.

Rhaid i reolwyr gynnal asesiadau risg fel y manylir ar hynny isod:

- Ystyried y dasg mewn llaw.
- Nodi'r peryglon tebygol.
- Asesu'n feintiol y risg y bydd niwed yn digwydd.
- Dileu'r perygl yn y ffynhonnell lle bo hynny'n bosibl, neu gyflwyno mesurau rheoli i leihau'r risg.
- Cyflenwi ODP fel y dewis olaf lle mai hynny yw'r unig fesur diogelu ymarferol neu fel rhywbeth ychwanegol sy'n gwella'r mesurau rheoli.
- Monitro ac adolygu'r mesurau rheoli'n rheolaidd.

Rhaid i'r asesiad risg gynnwys:

- Gosodiad a chynllun y gweithle.
- Natur, graddfa a hyd y cyswllt gyda phethau ffisegol, biolegol a chemegol.
- Ffurf, ystod a defnydd o'r offer gwaith a'r ffordd y mae'n cael ei drin.

- Trefniant y prosesau a'r gweithgareddau
- Amrediad yr hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarperir, neu y gwelir bod ei angen.

Os, o ganlyniad i ganlyniadau'r asesiad risg, y bydd yna risg sylweddol i weithwyr ifanc neu ddibrofiad wrth gyflawni tasg benodol neu wneud unrhyw waith yn y gweithle, yna rhaid eu **gwahardd** rhag gwneud y gwaith hwnnw.

Cynnal a Chadw a Chael Offer Diogelu Personol Newydd pan fo raid

Rhaid cynnal a chadw ODP (yn cynnwys eu newid neu eu glanhau fel bo'n briodol) gan sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn a'u bod mewn cyflwr da.

Gyda phob ODP, rhaid:

- Sicio am ddiffygion yn rheolaidd e.e. tyllau mewn menyg ac ati.
- Glanhau ac/neu eu diheintio ar ôl eu defnyddio a'u cadw mewn cyflwr glân, efallai y bydd angen cyfleusterau golchi ar gyfer rhai eitemau.
- Eu storio mewn lle priodol e.e. gogls diogelwch yn cael eu cadw mewn câs, cotiau'n cael eu hongian mewn loceri.
- Cael rhai newydd yn eu lle os byddant yn mynd at goll neu'n torri e.e. gwydrau Persbecs os ydynt wedi'u crafu ac ati.

Rhaid sefydlu cyfrifoldebau a gweithdrefnau (yn cynnwys amleddau) a rhaid cadw cofnodiadau priodol.

Lle Cadw Offer Diogelu Personol

Rhaid darparu lle priodol ac addas i gadw pob ODP yn ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Fe all y lle hwnnw fod yn eithaf syml e.e. pegiau ar gyfer dillad glaw neu helmedau diogelwch.

Rhaid i'r lle storio fod yn ddigonol i ddiogelu'r ODP rhag eu llygru, mynd ar goll neu eu difrodi. Lle bo'r ODP wedi'u llygru yn ystod eu defnyddio, rhaid i'r lle y cedwir hwy fod ar wahân i unrhyw le a ddarperir ar gyfer dillad cyffredin a rhaid eu labelu'n addas lle bo angen hynny.

Gwybodaeth, Cyfarwyddyd a Hyfforddiant

Bydd y rheolwyr yn gwneud trefniadau ar gyfer hyfforddiant anwytho addas i weithwyr i gynnwys y defnydd o unrhyw ODP a ddefnyddir yn eu swydd. Bydd angen rhoi hyfforddiant priodol i weithwyr pan fydd unrhyw ODP newydd yn cael eu cyflenwi iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn iawn beth yw eu defnydd, ffyrdd o'u haddasu a gofalu am yr offer.

Bydd rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth briodol lle mae unrhyw weithgaredd yn y gweithle neu dasg lle defnyddir ODP wedi'i nodi fel un sydd angen hyfforddiant neu gyfarwyddyd penodol yn-y-swydd. Rhaid i'r person a benodir fod yn gymwys ym mhob agwedd o'r oruchwyliaeth honno.

Defnyddio Offer Diogelu Personol (ODP)

Rhaid i bob gweithiwr y rhoddir ODP iddynt, wisgo'r offer bob amser gan sicrhau ei fod yn ffitio'n gywir. Gall gwisgo ODP ddiogelu iechyd a diogelwch y gweithiwr. Rhaid i weithwyr sicrhau eu bod yn gwybod y pwyntiau canlynol, sef:

- Pa fath yn union o ODP i'w defnyddio a pham bod angen eu defnyddio.
- Yn lle i gael yr ODP
- Sut i ddefnyddio'r ODP yn briodol yn cynnwys eu ffitio a'u haddasu
- Sut i sicio eich ODP cyn ei ddefnyddio
- Sut i'w glanhau a'u cynnal a'u cadw
- Sut a lle i storio eich ODP pan nad ydych yn eu defnyddio.

Offer Diogelu Anadlol (ODA)

Os bydd gweithwyr yn defnyddio ODA, yna rhaid i'r cyflogwyr ddefnyddio llyfryn cyfarwyddyd HSG53.

Rhaid i'r ODA fod yn addas i'r pwrpas y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gynnig diogelwch effeithiol i'r gwisgwr yn yr amgylchiadau y gwisgir ef. Rhaid iddynt allu darparu digon o aer glân i'r gwisgwr fedru anadlu a rhaid iddynt ffitio'r gwisgwr a rhaid i'r gwisgwr eu defnyddio'n gywir yn unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwr.

Os nad yw'r anadlydd yn un o fath 'un shifft' y gellir ei daflu ar ôl ei ddefnyddio, rhaid ei lanhau'n ddyddiol a'i gynnal a'i gadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Mathau o ODA

- Anadlyddion, ac mae'r rhain yn cynnwys darnau hidlo ar yr wyneb, anadlyddion ac anadlyddion pŵer.
- Offer anadlu.

Profion Ffitio'r Wyneb

Rhaid sicrhau bod y rhai sy'n gwisgo offer wyneb sy'n ffitio'n dynn wedi cynnal prawf i ffitio'r offer ar yr wyneb. Rhaid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod yr offer wyneb a ddewisir yn ffitio'n iawn. Fe allech ddefnyddio'r broses hon fel cyfle i hyfforddi a dangos beth fydd canlyniadau gwisgo offer wyneb sy'n ffitio'n wael neu gamddefnyddio'r offer. Byddai hyn hefyd yn gyfle da i sgrinio allan rai ODA nad ydynt yn addas.

Diogelu Clyw

Rhaid defnyddio mesurau diogelu clyw pan fo risg sŵn yn parhau er i fesurau rheoli eraill gael eu gweithredu. Bydd y Cyngor yn darparu offer diogelu clyw i weithwyr a bydd yn darparu plygiau i'r clustiau neu orchudd clustiau.

Plwg/plygiau clust: Dyfais yw'r plwg clust sydd wedi'i fwriadu i'w roi i mewn yn y glust er mwyn diogelu clyw'r gwisgwr rhag synau uchel. Lluniwyd y plwg clust i gadw sŵn allan a thrwy hynny bydd yn diogelu clyw'r unigolyn.

Gorchudd(ion) clustiau: Offer a ddyluniwyd i orchuddio clustiau'r person i'w diogelu. Yr hyn a geir yw band pen metel neu thermoplastig sy'n ffitio dros dop y pen, gyda phadiau ymhob pen i orchuddio'r clustiau.

Problemau gyda ODP: Ni ddylai gweithwyr byth wneud gwaith os nad oes ganddynt yr ODP cywir, neu os bydd rhywbeth o'i le gyda'r offer. Rhaid i weithwyr adrodd yn ôl bob amser i bersonau addas am unrhyw broblemau gyda ODP.

Problemau lechyd: Rhaid i weithwyr ddweud wrth eu rheolwr llinell am unrhyw broblemau iechyd allai fod yn gysylltiedig â'r gwaith neu allai effeithio sut y maent yn gweithio.

Rhoi gwybod am gollu offer diogelu neu offer personol sy'n ddiffygiol

Lle bo eitem o ODP yn ddiffygiol neu'n mynd ar goll, rhaid i'r gweithiwr ddweud wrth y cyflogwr ar unwaith am unrhyw golled neu unrhyw ddiffyg amlwg.

5.0 Cyfrifoldebau

Rheolwyr lechyd a Diogelwch Lefel Un

Y Prif Swyddog Gweithredol yw'r person sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol ag Dirprwy Swyddog Gweithredol sicrhau bod y pennaeth gwasanaeth yn gwneud eu dyletswyddau fel y nodir nhw ceir yn y weithdrefn hon

Rheolwyr lechyd a Diogelwch Lefel Dau

Rhaid i Phenaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod gan eu hadain neu adran yr adnoddau priodol i allu cydymffurfio gyda'r weithdrefn hon. Mae adnoddau'n cynnwys staff, amser a chyllid. Rhaid i bob rheolwr lefel dau sicrhau bod rheolwyr llinell a gweithwyr yn derbyn digon o wybodaeth. Bydd hyfforddiant a chyfarwyddyd yn cael ei roddi i bob gweithiwr ynglŷn â gweithgareddau codi ac offer codi.

Rheolwyr lechyd a Diogelwch Lefel Tri

Pan fo gweithiwr(wyr) newydd yn dechrau gweithio gyda'r Cyngor, rhaid i reolwyr lefel tri sicrhau eu bod yn cynnal ac yn adolygu asesiadau risg lle bo angen hynny tra'n gweithredu'r mesurau rheoli priodol. Rhaid i reolwyr sicrhau, lle bo asesiad wedi nodi bod angen ODP, bod ODP addas yn cael eu darparu a'u bod ar gael yn hawdd i bob gweithiwr sydd angen eu defnyddio.

Rhaid i reolwyr iechyd a diogelwch lefel tri sicrhau yr ymchwilir i unrhyw anafiadau, afiechydon neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â defnydd o ODP eu hymchwilio, gyda gweithredu adferol yn digwydd (os yn briodol) a bod gweithwyr yn defnyddio'r ODP a ddarparwyd yn iawn.

Rhaid i reolwyr llinell sicrhau bod yr holl weithwyr wedi derbyn cyfarwyddyd a hyfforddiant perthnasol ar ddefnyddio offer diogelu personol mewn dull diogel. Gellir cael mwy o wybodaeth gan y Tîm Iechyd a Diogelwch.

Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch

Rhaid i Ymgynghorydd(wyr) Iechyd a Diogelwch ddarparu cyngor ar y weithdrefn hon a'r ddogfennaeth gefnogol.

Gweithwyr

Bydd yn ddyletswydd ar bob gweithiwr eu bod yn cymryd gofal rhesymol drostynt eu hunain ac eraill all gael eu heffeithio gan eu gweithgaredd.

Rhaid i'r holl weithwyr y rhoddir ODP iddynt eu gwisgo bob amser, gan sicrhau eu bod yn ffitio'n iawn. Rhaid i weithwyr fynychu hyfforddiant perthnasol ac ni ddylent wneud unrhyw waith os nad yw'r ODP cywir ganddynt, neu os oes rhywbeth o'i le gyda'r offer. Rhaid i weithwyr adrodd yn ôl bob amser am unrhyw broblemau gyda'r ODP, i bersonau addas.

Rhaid i weithwyr adrodd yn ôl i'w rheolwr llinell am unrhyw broblemau iechyd allai fod yn gysylltiedig â'u swydd neu all gael effaith ar y ffordd y maent yn gweithio.

Rhaid i'r holl weithwyr gydweithredu gyda rheolwyr ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Ni ddylai gweithiwr(wyr) darfu gydag unrhyw ODP na'u haltro i ragfarnu eu heffeithlonrwydd a rhaid dilyn y gweithdrefnau a argymhellir ac a luniwyd er eu diogelwch. Rhaid adrodd yn ôl am bob damwain, digwyddiad, digwyddiad peryglus yn unol â gweithdrefnau adrannol.

Gwybodaeth Bellach

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar 01248 752820.

1.0